DISGRIFIAD SWYDD

# Technegydd

THEATR BRYCHEINIOG

**THEATR BRYCHEINIOG CYF**

Mae Theatr Brycheiniog yn lleoliad celfyddydau amrywiol a phoblogaidd, sy'n cynnig arlwy o raglenni proffesiynol bob blwyddyn sy'n cynnwys drama, opera, dawns, ystod eang o gerddoriaeth, dangosiadau byw, digwyddiadau ffilm a phrosiectau cyfranogol, yn ogystal â bod yn lleoliad arwyddocaol ar gyfer sefydliadau cymunedol lleol.

Lleolir y Theatr yn Aberhonddu o fewn ffiniau parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae yma awditoriwm theatr hyblyg 470 sedd (neu 600 ar eu traed), gwagle stiwdio mawr, oriel ar yr ail lawr, bar theatr ar y llawr cyntaf a chaffi ar lan y gamlas.

Yn dilyn gwaith adnewyddu gwerth £1.8m a buddsoddiad o bwys mewn goleuadau newydd i'r theatr, a symud i gyfeiriad gweledigaeth newydd ar gyfer y dyfodol, mae Theatr Brycheiniog yn cynnig cyfle i ddatblygu eich sgiliau technegol ar yr un pryd â chefnogi gwaith artistiaid a chyfranogwyr cymunedol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**GWYBODAETH AM Y SWYDD**

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | Technegydd |
| Cyflog: | £25,570 yn seiliedig ar wythnos waith 37.5 awr |
| Gwyliau: | 28 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc |
| Lleolir yn: | Theatr Brycheiniog |
| Atebol i: | Rheolwr Technegol |
| Cyfrifol am: | Efallai y rhoddir cyfrifoldeb i ddeiliad y swydd dros griw technegol achlysurol, contractwyr llawrydd, prentisiaid neu bobl ar leoliad gwaith. |

**CRYNODEB**

Mae'n adran dechnegol yn gweithio gyda'r cwmnïau cynhyrchu a'r timau sy'n dod i mewn er mwyn sicrhau y gellir darparu perfformiadau, cynadleddau a gweithgareddau eraill yn ddiogel, yn effeithiol ac effeithlon. Efallai y gelwir ar y tîm technegol hefyd i weithio ar bob agwedd ar isadeiledd yr adeilad a'r gwaith technegol, a chyfrannu at agwedd weithredol holl weithgareddau Theatr Brycheiniog. Efallai y bydd galw i wneud rhyw gymaint o waith y tu allan i'r adeilad hefyd.

**YR ADRAN DECHNEGOL**

Tîm bach yw'r adran dechnegol sy'n cynnwys y Rheolwr Technegol a dau dechnegydd tŷ parhaol. Fe'i cefnogir gan griw technegol llawrydd yn ôl y galw.

Arweinir yr adran gan y Rheolwr Technegol sydd hefyd yn gweithredu yn rôl rheoli cyfleusterau, gan weithredu fel rheolwr llinell i'r tîm Glanhau, a thrwy reoli R&M ar gyfer yr adeilad, yn ogystal â dilyn rôl weithredol gyda mesurau Iechyd a Diogelwch.

Theatr Brycheiniog, Canal Wharf, Brecon, Powys LD3 7EW
Gweinyddiaet | Administration: 01874 622838 www.theatrbrycheiniog.co.uk Swyddfa Docynnau | Box Office: 01874 611622
Company Registration Number: 2446965 | Registered Charity Number: 1005327 | VAT Number: 540823853

**PWRPAS Y SWYDD**
Cefnogaeth dechnegol i sain a goleuo, rheoli llwyfan, sicrhau bod perfformiadau, gweithgareddau a digwyddiadau'n cael eu cyflwyno'n rhagorol. Byddwch chi'n gweithio ar bob agwedd ar gefnogaeth dechnegol, ac ym maes rheoli beunyddiol a gweld fod holl waith Theatr Brycheiniog yn cael ei gyflawni'n esmwyth.

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU**
Cynorthwyo gyda phob gofyniad technegol er mwyn sicrhau fod Theatr Brycheiniog yn gweithredu'n llyfn ac effeithiol o ddydd i ddydd.

Darparu cymorth, gwybodaeth a chyngor ar holl gyfleusterau Theatr Brycheiniog ar gyfer cwmnïau sy'n llogi'r lle a grwpiau cymunedol, cwmnïau sy'n ymweld, artistiaid a'u hasiantwyr, gan weithio gyda nhw i ddarparu'r profiad gorau posib ar gyfer perfformwyr a chynulleidfaoedd

Cysylltu yn ôl y galw â chwmnïau, artistiaid, perfformwyr, rheolwyr llwyfan, technegwyr sy'n ymweld

Cynorthwyo gyda 'get -ins' a 'get-outs' ar gyfer perfformiadau, digwyddiadau a gweithgareddau

Rigio a gweithredu offer sain a goleuo yn ôl y galw

Gosod ar gyfer digwyddiadau eraill, fel cynadleddau, a'u gweithredu

Cynnal safon uchel o ofal am lanhau a chynnal a chadw rheolaidd ymhob ardal cefn llwyfan a thechnegol, gan sicrhau fod yr holl offer technegol yn cael ei gynnal i'r safonau uchaf posib er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

Cynorthwyo gyda sicrhau fod ymlyniad yn digwydd â phob polisi Iechyd a Diogelwch

Cynorthwyo gyda sicrhau fod holl offer Iechyd a Diogelwch a systemau diogelwch tân yn cael eu profi a'u cynnal a chadw'n rheolaidd

Cynorthwyo gyda chynnal rhestrau cyfredol a chywir o holl offer Theatr Brycheiniog

Darparu cyfeiriad, cyfarwyddyd, arweiniad, cefnogaeth a goruchwylio staff achlysurol neu lawrydd

Cynhyrchu a chyflwyno adroddiadau am sioeau, ffeiliau perfformiad / cynhyrchu ac ati, yn ôl y galw

Dirprwyo ar gyfer y Rheolwr Technegol yn ôl y galw

Bod yn gyfarwydd â holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol Iechyd a Diogelwch, Gweithredol, Personél, Diogelu Data a Rheoliadau Ariannol, a chydymffurfio â nhw

Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill o natur gyfatebol, fel y bo angen o bryd i'w gilydd

Rhaid i ddyletswyddau deiliad y swydd gael eu cynnal bob amser yn unol â Pholisi Cyfleoedd Cyfartal Theatr Brycheiniog, gan sicrhau fod cydraddoldeb cyfle'n cael ei estyn i bob un yn fewnol ac allanol i Theatr Brycheiniog, gan geisio'n weithredol i ddiddymu unrhyw arferion / ymddygiad gwahaniaethol uniongyrchol neu anuniongyrchol.

**AMODAU YCHWANEGOL**
a) Bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio oriau anghymdeithasol gan gynnwys gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau banc fel rhan o'u hwythnos waith arferol

b) Nid yw deiliad y swydd yn gymwys i dderbyn taliadau goramser nac ychwanegol.

c) Dylid mynychu cyfarfodydd staff, sesiynau hyfforddi a digwyddiadau eraill yn ôl y galw.